# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 27 Mehefin 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Cysylltu Datblygu Polisi, Deddfwriaeth a Gweithredu

**C1 Cynog Dafis:** Pa gynnydd sydd wedi'i wneud i fodloni'r argymhelliad a gytunwyd yn 'Gwellcymru.com' am archwiliad cynnar o'r graddau y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn effeithiol gysylltu datblygu polisi, deddfwriaeth a gweithredu er mwyn dod â'r cynigion am welliannau yn eu blaenau? (OAQ6012)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cabinet wedi ystyried papur ar ddylanwadu ar raglen ddeddfwriaethol y DU i'r dyfodol a byddwn yn cyflwyno cynigion am strwythur newydd ar gyfer cynhyrchu cynigion o du'r Cynulliad ac ymateb i raglen y DU. Bydd hyn yn golygu trefn wahanol ar gyfer y ddadl ar Araith y Frenhines i'r hyn a gafwyd y llynedd—un a ddylai ganiatáu i'r Cynulliad ddatblygu mewnbwn manwl i'r rhaglen. Caiff hyn ei drafod yn y Pwyllgor Busnes. Mae cynigion wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes hefyd ar roi gwybod i'r Cynulliad ar hynt deddfwriaeth sylfaenol.

Ar fater ehangach datblygu polisi, erbyn hyn mae gennym broses ar y gweill o gysylltu ag arbenigwyr, partneriaid a phwyllgorau gan arwain at ymgynghori ffurfiol, rhoi adroddiad ar ganlyniadau'r ymgynghori a llunio camau gweithredu manwl maes o law. Yr wyf yn awr yn edrych ar roi tipyn mwy o strwythur i'r broses hon. Mae'r cynllun gweithredu, 'Cyflwyno Gwell Llywodraeth', a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn nodi cyfres o fesurau yr eir ar eu trywydd er mwyn cefnogi proses polisi gryfach.

### Proses Datblygu Polisi

**C4 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gyhoeddiad ynghylch y broses datblygu polisi a ddefnyddir gan y weinyddiaeth? (OAQ6006)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr ydym yn datblygu proses datblygu polisi unigol iawn gan ddefnyddio'r cyfleoedd a ddarperir gan y Cynulliad yn llawn. Prif elfennau'r broses hon yw'r cylch corfforaethol o waith cynllunio a llunio'r gyllideb lle gosodwn amcanion strategol; ymwneud â'n partneriaid ar draws pob sector i ddatblygu syniadau manwl; profi syniadau neu ddatblygu astudiaethau penodol yn y Pwyllgorau Pwnc; defnyddio'r cynlluniau a'r themâu i brofi pa mor dda y mae cynigion unigol yn ateb eu diben; a chynnal rhaglen o gloriannu ac adolygu i oleuo gwaith datblygu polisi i'r dyfodol.

### Cronfa Ddatblygu i Helpu Busnesau Bach a Chanolig eu Maint

**C10 Phil Williams:** A all y Prif Ysgrifennydd adrodd ar y cynnydd sydd yn cael ei wneud i sefydlu cronfa ddatblygu i helpu busnesau bach a chanolig eu maint, fel y crybwyllir yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ6002)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud ar y prosiect hwn ar ôl i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gymeradwyo'r prosiect ar 12 Ebrill. Mae Awdurdod Datblygu Cymru, yn gweithio ynghyd â Chynghrair Rhanbarthol Amcan 1, wedi cyhoeddi hysbysebion am reolwyr cronfeydd a phartneriaid cyllido yn y *Western Mail* a phapurau eraill. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r Adran Masnach a Diwydiant a'r Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â materion nawdd gwladol a hysbysiadau am brosiectau mawr. Cynhaliodd Partneriaeth Gysgodol Cyllid Cymru ei chyfarfod cyntaf ar 14 Mehefin a bydd yn cwrdd eto ar 27 Mehefin i drafod y cynllun gweithredu drafft. Mae gwaith drafftio'r dogfennau cyfreithiol angenrheidiol a chanllawiau gweithredol yn mynd rhagddo. Mae'r negodiadau ynglŷn â

phencadlys Cyllid Cymru yn parhau ac mae'r WDA yn sefydlu trefniadau trosiannol. Y cam allweddol nesaf yw cyflwyno cais am drefn trac cyflym at y cronfeydd Ewropeaidd erbyn diwedd Gorffennaf ac mae cynlluniau prosiect wedi'u paratoi i gyrraedd y targed hwn fel y bydd y gronfa yn gwbl weithredol erbyn diwedd y flwyddyn hon, sef y targed a bennwyd yn 'Gwell Cymru'. Darperir mwy o wybodaeth gan y bartneriaeth mewn papur ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 6 Gorffennaf.

**Cefnogwr i Fusnes yng Nghymru**

**C11 Alison Halford:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael trafodaethau â chymuned busnes gogledd Cymru i ystyried cynnig i benodi cefnogwr i fusnes yng Nghymru? (OAQ6025)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Myfi yw cefnogwr busnesau Cymru. Tybiaf mai fy ymweliadau â llu o gwmnïau ledled Cymru yw un o agweddau mwyaf gwerthfawr, diddorol a phleserus ar fy swydd. Yr wyf hefyd yn cwrdd â chyrff cynrychioli busnes yn aml drwy'r Cyngor Partneriaeth Busnes, yn ogystal ag ar lu o achlysuron eraill.

**Polisïau sydd yn Gyfeillgar i'r Amgylchedd (Adeiladau a Gweithgareddau'r Cynulliad)**

**C12 Brian Hancock:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu annog arfer da o ran polisïau sydd yn gyfeillgar i'r amgylchedd yn adeiladau a gweithgareddau'r Cynulliad? (OAQ5993)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Polisi'r Cynulliad yw arddel, pa le bynnag y bo hynny'n ymarferol, yr arferion amgylcheddol gorau wrth reoli ei ystad a gweithgareddau cysylltiol. Mae cynlluniau gweithredu gwyrdd penodol ym maes cadw tŷ yn cael eu paratoi'n flynyddol i roi'r polisi hwn ar waith yn ymarferol. Mae'r cynlluniau'n cwmpasu ystod eang o weithgareddau a thargedau a fwriedir i gyflawni lefel uwch o berfformiad amgylcheddol. Mae'r themâu pennaf yn cynnwys: gwella effeithlonrwydd ynni a chadw dŵr; lleihau'r maint o wastraff sydd yn cael ei gladdu; rhoi'r gorau i ddefnyddio sylweddau sydd yn difa osôn yn adeiladau'r Cynulliad a gostwng lefelau llygredd. Mae'r holl drefniadau prynu a llogi ceir yn adlewyrchu'r pryder am yr amgylchedd. Fel a nodwyd yn y cynllun datblygu cynaliadwy drafft yr ydym wedi ymgynghori arno, byddwn yn datblygu cynllun trafnidiaeth gwyrdd ar gyfer ystad y Cynulliad. Mae'r Cynulliad hefyd wedi ymrwymo i gynnal polisi prynu sydd yn rhoi pwysau llawn i ystyriaethau amgylcheddol wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau ac i gynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth staff o arferion gwaith da ac annog y staff i gymryd rhan mewn gweithredu amgylcheddol megis ailgylchu papur a gwastraff arall o swyddfeydd.

**Cynnwys y Sector Gwirfoddol mewn Datblygu Polisïau**

**C13 Geraint Davies:** Pa ymdrechion y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu gwneud i gynnwys y sector gwirfoddol yn y broses o ddatblygu polisïau yn y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ6013)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bwriadaf i'r sector gwirfoddol fod yn bartner wrth ddatblygu polisi ym mhob rhan o waith y Cynulliad. Caiff y swyddogaeth hon ei nodi yng nghynllun y sector gwirfoddol a fydd yn dod gerbron y Cynulliad i'w fabwysiadu yn fuan.

Mae nifer o faterion polisi eisoes wedi'u trafod yng Nghyngor Partneriaeth cysgodol y Sector Gwirfoddol ac mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at y cylch cynllunio strategol eleni. Mae egwyddor y bartneriaeth o draean/traean/traean yn un y byddwn am ei hymestyn i bob maes gwaith. Mae rhannau perthnasol y sector gwirfoddol eisoes yn gweithio gyda gweithgorau ar feysydd megis datblygu polisi fel pobl ifanc; adfywio cymunedau; hyfforddiant a thai.

**Cymorth i Gwmnïau sydd yn Defnyddio Technoleg Newydd yng Nghymru**

**C14 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cymorth priodol i gwmnïau sydd yn defnyddio technoleg newydd yng Nghymru? (OAQ6000)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n fynych i drafod ystod o faterion gan gynnwys cymorth i gwmnïau sydd yn defnyddio technoleg newydd yng Nghymru. Ar 20 Mehefin, rhoddais nifer o enghreifftiau o'r math o gymorth sydd ar gael yn fy natganiad ar ran y Cynulliad Cenedlaethol ar ganolfan ymchwil a datblygu Corus ym Mhort Talbot.

**Targedau Ailgylchu ar gyfer 2010**

**C15 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar y targedau ailgylchu ar gyfer 2010 a roddir yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ6015)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn sgîl cyhoeddi 'Waste Strategy 2000 for England and Wales: Part 1' ym Mai, yr ydym wedi ymrwymo i baratoi strategaeth gwastraff i Gymru dros y 18 mis nesaf. Bydd hon yn cynnwys polisïau sydd â'r nod o gynyddu'r maint o wastraff yr ydym yn ei ailgylchu i'r eithaf a chyrraedd y targedau ailgylchu yn 'Gwellcymru.com'.

**Gwahardd Hela â Chŵn yng Nghymru (Trafodaethau)**

**C16 Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael gyda Gweinidogion y DU ynghylch y posibilrwydd y gallai'r Cynulliad benderfynu a ddylid gwahardd hela â chŵn yng Nghymru? (OAQ6020)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dim. Nid yw hela yn fater sydd wedi'i ddatganoli a byddai'n rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno gwaharddiad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mehefin y gallai ASau gyflwyno gwelliant i'r Mesur yn rhoi'r grym i'r Cynulliad benderfynu a ddylid cyflwyno gwaharddiad yng Nghymru. Fodd bynnag, mater i'r Senedd benderfynu yw hwnnw. Yn ogystal, dylid nodi bod adroddiad Burns yn argymell na fyddai'n foddhaol bod darpariaethau deddfwriaethol gwahanol mewn grym mewn gwahanol ranbarthau o Gymru a Lloegr, heb reswm da ar seiliau gwrthrychol.

**Adroddiad ar Ymchwiliad Burns (Effaith ar Gymru)**

**C17 Lorraine Barrett:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi trafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru sut y bydd yr adroddiad ar ymchwiliad Burns yn effeithio ar Gymru? (OAQ6028)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Byddwn yn disgwyl i unrhyw drafodaethau rhwng Aelodau Cabinet y Cynulliad a'r Ysgrifennydd Gwladol neu ei Weinidog ystyried a yw'r cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn sgîl adroddiad Burns yn rhoi ystyriaeth ddigonol i amgylchiadau Cymru.

**Penderfyniad ar Hela â Chŵn (Trafodaethau)**

**C18 Alun Cairns:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch penderfynu ar hela â chŵn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ6018)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dim. Nid yw hela yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Byddai'n rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno gwaharddiad.

**Proses Ffurfio Polisi (Rhan Gogledd Cymru)**

**C19 Christine Humphreys:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu cynyddu'r rhan a chwaraeir gan ogledd Cymru yn y broses o ffurfio polisi yn y Cynulliad? (OAQ6011)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf chi at yr ateb i gwestiwn llafar Nick Bourne gerbron y Cynulliad (OAQ5458), a atebwyd ar 6 Mehefin.

**'Gwellcymru.com' (Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Awdurdodau Lleol)**

**C20 Janet Ryder:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cynnal unrhyw gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol er mwyn trafod goblygiadau 'Gwellcymru.com'? (OAQ6001)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid wyf wedi cwrdd yn benodol â chynrychiolwyr llywodraeth leol yng Nghymru i drafod goblygiadau 'Gwellcymru.com'. Mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi cyflwyno 'Gwellcymru.com' i'r Cyngor Partneriaeth gyda llywodraeth leol. Mae fy nghyd-Aelod Peter Law, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai, wrthi'n trafod â chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sut y gallai cytundebau polisi gyda phob awdurdod lleol ar wahân eu galluogi i bennu'r hyn y maent yn ei wneud ynglŷn â'r prif amcanion—y maent hwy yn eu rhannu—a ddisgrifir yn 'Gwell Cymru',.

**Effaith Polisïau ar Fro Morgannwg**

**C21 David Melding:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ar sut y mae polisïau'r weinyddiaeth yn effeithio ar Fro Morgannwg? (OAQ6005)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cynulliad yn gweithio i greu cymdeithas lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hannog i chwarae rhan lawn. Nod ein polisïau yw creu poblogaeth sydd wedi ei haddysgu'n dda, sydd â sgiliau da, sydd yn iach ac yn gallu manteisio ar wasanaethau cyhoeddus effeithlon.

Bwriadwn i'r polisïau hyn effeithio ar bob rhan o Gymru, gan gynnwys Bro Morgannwg. Mae Bro Morgannwg yn rhan o'r ardal lle bydd cronfeydd strwythurol Amcan 3 ar gael, a bydd yn gallu elwa o brosiectau a gefnogir gan y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd, gan gynnwys mesurau gweithredu a fwriadwyd i atal a gweithio yn erbyn diweithdra, hyrwyddo natur gystadleuol busnes ac annog dysgu gydol oes. Bydd rhannau o'r ardal yn gymwys hefyd i gael cyllid trosiannol o dan y rhaglen Amcan 2 unwaith y cytunir ar hynny gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

Yn ogystal, yn sgîl dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi adennill y cyfrifoldeb am adfywiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ei ardal yn ei chyfanrwydd. Bydd uchafswm o £7.5 miliwn ar gael i Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer cynllun cyswllt Penarth, promenâd a fydd yn cynnwys llwybr cerdded a beicio ar hyd y blaendraeth islaw Trwyn Penarth, dros bum mlynedd, ar yr amod bod y Cyngor yn gwneud cytundeb ariannol.

**Effaith y Fargen Newydd yng Nghymru**

**C22 Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion eraill ynghylch effaith y Fargen Newydd yng Nghymru? (OAQ6009)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae polisi cyflogaeth yn fater a gadwyd i Lywodraeth y DU, sydd yn arwain ar gyllido a chyflwyno'r Fargen Newydd. Yng Nghymru, mae'n gwneud hynny mewn partneriaeth â'r Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff o Gymru sydd yn cyfrannu.

Caf gyfarfodydd rheolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, lle trafodir ystod o bynciau, gan gynnwys y Fargen Newydd.

Yr wyf yn falch iawn o weld bod dros 21,000 o bobl ddi-waith yng Nghymru wedi cael gwaith erbyn hyn ar ôl iddynt gymryd rhan yn y Fargen Newydd.

**Penodi Ymgynghorwyr Gwleidyddol Pellach**

**C23 Jenny Randerson:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu penodi unrhyw ymgynghorwyr gwleidyddol pellach? (OAQ6016)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nac ydwyf. Mae Gorchymyn y Gwasanaeth Sifil drwy Gyngor 1995, fel y'i diwygiwyd ym Mawrth 1999, yn caniatáu i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad neu un o Ysgrifenyddion y Cynulliad benodi hyd at bedwar ymgynghorydd arbennig. Yn sgîl yr ymarferiad recriwtio diweddar, mae pedwar apwyntiad wedi eu gwneud.

**Datganiad ar Newidiadau i'r Cabinet**

**C24 Owen John Thomas:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ar ei gynigion ar gyfer newidiadau i'r Cabinet yn ddigon buan fel bod unrhyw addasu angenrheidiol i strwythur y Pwyllgorau yn cael ei gyflwyno cyn gwyliau'r haf? (OAQ5994)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf chi at yr ateb a roddodd Andrew Davies i Rhodri Glyn Thomas ar fy rhan ar 6 Mehefin 2000 (OAQ5474).

**Polisïau Ewropeaidd sydd yn Effeithio ar Gymru**

**C25 Ieuan Wyn Jones:** Pa ymdrechion y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu gwneud i annog gwell ymwybyddiaeth o'r polisïau Ewropeaidd sydd yn effeithio ar Gymru? (OAQ5998)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr ydym wedi sefydlu Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd, sydd yn cwrdd bob chwe mis gyda chynrychiolwyr o gyrff preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Mae'r Fforwm yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o faterion Ewropeaidd perthnasol sydd yn effeithio ar Gymru a hefyd yn annog trafodaeth ar faterion Ewropeaidd o bwys.

Mae'r Cynulliad wedi ymuno hefyd â Chanolfan Ewropeaidd Cymru. Mae ein tanysgrifiad yn galluogi'r Ganolfan i ddatblygu ac ehangu ei gwasanaethau gwybodaeth a lobïo i'w holl gymar sefydliadau a'u cynorthwyo i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o bolisïau Ewropeaidd sydd yn effeithio ar Gymru.

**Cysylltiadau rhwng Haenau Amrywiol y Llywodraeth yng Nghymru**

**C26 Helen Mary Jones:** Sut y bydd y Prif Ysgrifennydd yn meithrin cysylltiadau cryfach rhwng haenau amrywiol y Llywodraeth yng Nghymru wrth ddatblygu a gweithredu polisïau? (OAQ6014)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Cyngor Partneriaeth yn ffordd effeithiol o drafod datblygu polisi gyda'r sector llywodraeth leol ac yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â pholisïau'r Cynulliad a Llywodraeth y DU. Yr ydym yn datblygu (ar ysgogiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) gytundebau polisi gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru a fydd yn canolbwyntio ar wireddu canlyniadau allweddol ynglŷn ag amcanion a rennir. Mae concordatiau'r Cynulliad gydag adrannau Llywodraeth y DU yn cynnig dolenni cyswllt defnyddiol gyda'r adrannau hynny wrth roi polisïau ar waith.

Ynghyd â'm cyd-Aelodau yn y Cabinet, byddaf yn parhau i adolygu'r mecanweithiau hyn i sicrhau eu bod yn dal i ddatblygu'n gysylltiadau cryfach.

**Ansawdd Gwasanaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**C27 Richard Edwards:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ar ansawdd y gwasanaeth y dylai bobl yng Nghymru ei dderbyn oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ5991)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ers ei sefydlu mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu'r chwe safon gwasanaeth a osodwyd ar gyfer Llywodraeth ganolog sydd yn nodi, er enghraifft, sut y byddem yn delio â gohebiaeth, yn ymgynghori â'n partneriaid ac yn delio â chwynion. Yn hydref y llynedd, lansiwyd rhaglen Syr Richard Wilson i ddiwygio'r gwasanaeth sifil, o dan y pennawd 'Moderneiddio Llywodraeth'. Addaswyd y rhaglen ddiwygio ar gyfer yr amgylchiadau arbennig yn y Cynulliad a chafodd ei hailfrandio i'n

galluogi ni i ddilyn ein hagenda neilltuol ein hunain. Yn Rhagfyr, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Parhaol y cynllun gwell llywodraeth.

Bydd y cynllun gwell llywodraeth yn gwireddu gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer gwell gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yn gosod y safonau rhagoriaeth uchaf mewn gweinyddiaeth gyhoeddus a gwasanaeth cyhoeddus, a gydnabyddir felly gan y cyhoedd, ein partneriaid ac Aelodau'r Cynulliad; bydd y Cynulliad yn dod yn gyflogwr o ansawdd y bydd pobl yn falch o fod yn gysylltiedig ag ef; ac yn sefydliad sydd yn dysgu a lle mae'r safonau yn cael eu gwella'n barhaus.

Yn dilyn y lansio, ymgymerwyd â rhaglen ymgynghori gynhwysfawr gyda holl staff y Cynulliad. Canolbwyntiai'r ymgynghori ar y saith maes gwella isod, a datblygodd y rhain yn 'themâu' ar gyfer gwell llywodraeth:

- Gwell Arweinyddiaeth
- Gwell Ffyrdd o Wneud Busnes
- Gwell Ffyrdd o Reoli Perfformiad
- Ymgorffori Cydraddoldeb mewn Polisïau ac Arferion
- Edrych Mwy Tuag Allan
- Gwell Amodau Gwaith ac Arferion Cyflogi
- Gwell Dulliau o Ddatblygu Polisi

Ar ôl ymgynghori, cyflwynwyd cynllun gweithredu i Swyddfa'r Cabinet gyda chais am arian o'r gronfa buddsoddi i foderneiddio. Cafodd y cynllun dderbyniad da a dyfarnwyd grantiau o £22.1 miliwn i'r Cynulliad, sydd yn cymharu'n dda iawn â'r hyn a ddyfarnwyd i Adrannau eraill.

### Mesur Gwasanaethau Post

**C28 Kirsty Williams:** Beth sydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ystyried pryderon y Cynulliad, a fynegwyd yn ei gynnig ar 18 Ionawr, ynghylch y Mesur Gwasanaethau Post? (OAQ6017)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cyfeiriaf Kirsty Williams at fy ateb ar 20 Mehefin i gwestiwn tebyg gan Christine Humphreys (OAQ5832).

Er bod swyddfeydd post yn fater sydd wedi'i gadw, dywedais eu bod yn peri pryder i bawb ohonom, a chyfeiriais at y cyswllt a fu rhwng swyddogion y Cynulliad ac Uned Perfformiad ac Arloesi Swyddfa'r Cabinet tra'r oedd yn paratoi ei hastudiaeth ar y rhwydwaith swyddfeydd post cenedlaethol, sydd i'w chyhoeddi'n fuan.

Cyfeiriais at y cyfarfod sydd i'w gynnal rhwng swyddogion y Cynulliad a'r Comisiwn Gwasanaethau Post cysgodol. Dywedais fy mod wedi ysgrifennu at Alan Johnson, y Gweinidog Cystadleurwydd yn yr Adran Masnach a Diwydiant, er mwyn trosglwyddo'r pryderon ynglŷn â chyflwyno trosglwyddiadau credyd awtomatig; yr wyf yn dal i ddisgwyl am ateb.

### Cysylltiadau â Chynulliad Gogledd Iwerddon

**C29 Brian Gibbons:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i sicrhau cysylltiadau agosach rhwng y Cynulliad a Chynulliad Gogledd Iwerddon? (OAQ6019)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf fi a'm cyd-Aelodau yn y Cabinet yn edrych ymlaen at ddatblygu cysylltiadau cryf gyda'n cymheiriaid yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Nid mater i mi yw'r cysylltiadau rhwng y Cynulliad hwn yn ei gyfanrwydd a Chynulliad Gogledd Iwerddon, er y byddwn yn croesawu cysylltiadau agos.

**Targedau Strategol y Cynulliad (Rôl Ysgolion)**

**C30 Pauline Jarman:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cynnal unrhyw drafodaethau gydag ysgolion ynghylch eu rôl o ran cyflawni targedau strategol y Cynulliad? (OAQ5999)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ymgynghorwyd yn llawn ag ysgolion ynglŷn â'r targedau addysg a awgrymwyd yn y Papur Gwyn ar addysg, 'Adeiladu Ysgolion Ardderchog gyda'n Gilydd', ac yn y cynllun gweithredu addysg a hyfforddiant ar gyfer Cymru. Erbyn hyn mae'r targedau a nodwyd yn y dogfennau hynny wedi eu cario ymlaen i'r targedau strategol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y cyfraniad a wneir gan bob ysgol tuag at gyflawni'r targedau hynny yn parhau i fod yn fater iddynt gytuno arno gyda'u hawdurdod addysg lleol perthnasol.